Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir
Radur
Brynbuga
Cyngor Sir Fynwy
NP15 1GA

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Sir Fynwy

Mae Sir Fynwy wedi'i lleoli yn ne-ddwyrain Cymru, ac mae ganddi gyfanswm poblogaeth o ychydig dros 93,000 o bobl. Mae 11,340 o ddisgyblion ar draws 34 ysgol yn Sir Fynwy. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal tair ysgol uwchradd, un ysgol bob oed, 30 ysgol gynradd (y mae tair ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg) ac un gwasanaeth cyfeirio disgyblion. Mae 25 o leoliadau nas cynhelir.

Penodwyd y Prif Weithredwr yn 2009. Dechreuodd y Cyfarwyddwr Strategol, Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi yn ei swydd yn 2017. Mae arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2022, a dechreuodd yr Aelod dros Blant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi yn ei swydd ym mis Mai 2025. Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf ym mis Chwefror 2020.

Yn 2025-2026, cyllideb addysg net y Cyngor yw tua £84 miliwn. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yw £6,316, sef yr isaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir Fynwy wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 12.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 21.3%
- Mae 2% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 14%
- Mae 10% o ddisgyblion sy'n 5 oed ac yn hŷn o leiafrifoedd ethnig, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 16%
- Mae gan 12% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 10%
- Roedd 98 o blant i bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2019, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 116 o blant i bob 10,000

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn dangos ymagwedd gydlynus ac wedi'i harwain yn strategol at wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gweledigaeth glir sydd wedi'i gwreiddio mewn tegwch, tryloywder a gwerthoedd cryf yn meithrin ymddiriedaeth a chydweithio. Mae systemau clir a chydweithio pwrpasol yn sail i welliannau ar draws gwella ysgolion, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY), presenoldeb, datblygu'r Gymraeg a diogelu. Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i gefnogi gwelliant parhaus yng nghyrhaeddiad, cynhwysiant a lles disgyblion.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei brosesau ar gyfer gwerthuso a gwella er bod gormod o amrywiad yn gyffredinol o ran pa mor dda mae arweinwyr a swyddogion yn gwerthuso effaith eu gwaith. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu dysgu proffesiynol, myfyrio a chynllunio olyniaeth. Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi gwneud penderfyniadau yn wybodus, er nad yw ardoddiadau craffu swyddogion yn ddigon manwl mewn mannau. Ceir dealltwriaeth gadarn o reolaeth ariannol. Fodd bynnag, mae diffygion ariannol mewn ysgolion yn creu risgiau a allai rwystro cynaliadwyedd gwelliannau os nad eir i'r afael â nhw'n gadarn.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf. Mae ysgolion yn cael cymorth a chyngor amserol a hynod fuddiol. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol o ran nodi tueddiadau a risgiau mewn diogelu. Mae swyddogion yn ymateb yn effeithiol i'r tueddiadau hyn. Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn gwella diogelwch, lles a phrofiadau dysgu.

Mae strategaeth gwella ysgolion wedi'i mynegi'n glir, sy'n cyd-fynd â gwaith gwasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod lleol (GGYALl), yn sefydlu systemau cymorth a her cadarn. Mae rolau diffiniedig, atebolrwydd cryf a threfn gyson o ran casglu gwybodaeth yn galluogi arweinwyr a Phartneriaid Gwella Ysgolion (PGY) i ddatblygu dealltwriaeth gywir o ysgolion. Mae cyflwyno adolygiadau thematig wedi'u mireinio ac ymyrraeth gyflym trwy ddull Tîm o Amgylch yr Ysgol yn sicrhau yr eir i'r afael yn brydlon â rhwystrau rhag gwella. Mae'r dull cydlynus hwn yn sicrhau bod cymorth yn amserol, yn dargedig ac yn cael ei werthuso'n rheolaidd.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth strategol glir ar gyfer cynhwysiant, ac wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn amlwg. Mae ailffurfio systemau, cydweithio estynedig rhwng timau arbenigol ac ysgolion, a dysgu proffesiynol cryf ar gyfer Cydlynwyr ADY a staff ysgolion yn creu hyder a chymhwysedd cynyddol i ddiwallu ystod eang o anghenion disgyblion. Gall ysgolion ddiwallu ystod ehangach o ADY yn gynyddol o fewn amgylcheddau prif ffrwd, gan feithrin diwylliant lle mae disgyblion ag ADY yn aros o fewn eu cymunedau. Mae model ADY cynhwysfawr yn y

blynyddoedd cynnar yn galluogi nodi'n gynnar a chyfnodau pontio esmwythach i'r ysgol. Fodd bynnag, mae systemau olrhain cynhwysiant yr awdurdod yn cyfyngu ar allu arweinwyr i fonitro cynnydd disgyblion ag ADY yn ddiogel.

Mae dull yr awdurdod sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar berthnasoedd yn ffurfio'i waith ar gyfer gwella presenoldeb. Mae disgwyliadau uchel, ymgynghoriadau rheolaidd, craffu cryfach ar ddata a gweithio amlasiantaethol yn sicrhau bod materion presenoldeb yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw yn gynnar. Mae sefydlu tîm cyswllt â theuluoedd yn gwella cyfathrebu â theuluoedd ac yn lleihau rhwystrau rhag presenoldeb. Mae gwelliannau cryf yn amlwg mewn presenoldeb cynradd ac mae arwyddion cynnar o gynnydd yn dod i'r amlwg mewn grwpiau mwy bregus. Mewn lleoliadau cynradd, mae cyfraddau presenoldeb yn gwella. Fodd bynnag, mae angen gwella presenoldeb cyffredinol disgyblion uwchradd ac ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae gweledigaeth glir Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a strwythurau cydweithredol yr awdurdod yn gyrru gwelliant mewn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion, yn ogystal â datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae gwaith partneriaeth cryf, cyfathrebu tryloyw â rhanddeiliaid a dysgu proffesiynol targedig yn creu amodau ar gyfer gwella. Mae niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn dechrau mewn dosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae mwyafrif o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg a arolygwyd er 2022 wedi cael argymhelliad i wella'r ddarpariaeth Gymraeg. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r awdurdod yn canolbwyntio ar gynorthwyo arweinwyr ysgolion i ddatblygu gweledigaeth a diwylliant Cymreig.

Mae negeseuon a gwerthusiadau o arolygiad gwaith ieuenctid a gynhaliwyd yn fuan cyn yr arolygiad hwn wedi helpu llywio arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol, lle bo'n berthnasol.

## Argymhellion

A1 Gwella cysondeb prosesau gwerthuso i werthuso effaith gwaith yr awdurdod lleol yn fwy effeithiol

A2 Gwella presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd a grwpiau dysgwyr allweddol

A3 Parhau i gefnogi a herio ysgolion i leihau'r diffyg mewn cyllidebau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

# Prif ganfyddiadau

## Gwasanaethau addysg a'u heffaith

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ac yn herio'i ysgolion i wella deilliannau ar gyfer disgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n fwy abl?

Mae gan Gyngor Sir Fynwy strategaeth glir ar gyfer gwella ysgolion. Ceir ymagwedd gref at gefnogi a herio ysgolion. Mae cydweithio rhwng yr awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod lleol (GGYALl) wedi hen ennill ei blwyf ac wedi cryfhau dros gyfnod. Mae hyn wedi helpu sicrhau ymagwedd effeithiol a chydlynus at wella ysgolion.

Mae rolau a chyfrifoldebau GGYALl a'r awdurdod lleol wedi'u diffinio'n glir, gan sicrhau aliniad di-dor o gymorth. Ceir llinellau atebolrwydd clir sy'n cael eu deall yn dda gan bob un o'r partneriaid, gan sicrhau bod cymorth yn amserol a phriodol. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal ffocws cryf ar wella arweinyddiaeth, ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Ers yr arolygiad craidd diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei ffocws ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae hyn wedi cael effaith nodedig ar ddeilliannau'r grŵp hwn o ddisgyblion, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Ceir systemau cynhwysfawr i gasglu ystod o wybodaeth berthnasol am ysgolion a'r gwasanaeth cyfeirio disgyblion (GCD). Mae hyn yn helpu'r awdurdod lleol i gael dealltwriaeth gref o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y lleoliadau hyn. Mae'r Prif Bartner Gwella Ysgolion ac arweinydd gwella ysgolion yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos. Maent yn rhoi arweiniad clir i Bartneriaid Gwella Ysgolion (PGY) sydd wedi helpu gwella effeithiolrwydd eu gwaith. Mae system electronig ddefnyddiol yn gwneud defnydd addas o ddeilliannau arolygu, data a thystiolaeth uniongyrchol i ddarparu mewnwelediad clir i gynnydd lleoliadau ac ysgolion unigol.

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o gyfleoedd i gefnogi a herio'u hysgolion a GGYALl. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd partneriaeth gyda swyddogion o GGYALl, yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol sy'n cynnwys arweinwyr o ysgolion a'r gwasanaeth cyfeirio disgyblion (GCD). Mae'r rhain yn galluogi swyddogion i sicrhau bod blaenoriaethau'n briodol a bod cymorth yn alinio'n effeithiol ag angen. Maent yn gwerthuso effaith y cymorth hwn yn rheolaidd. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu trosolwg addas o gryfderau a meysydd i'w gwella mewn meysydd penodol. Mae adroddiadau thematig yn broses ddefnyddiol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a nodwyd gan yr awdurdod. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi trosolwg addas o gryfderau a meysydd i'w gwella mewn meysydd penodol. Mae adroddiadau wedi cael eu diwygio a'u mireinio'n ddiweddar, gan roi digon o amser i ysgolion a lleoliadau weithredu unrhyw argymhellion yn effeithiol a sicrhau eu bod yn cael mwy o effaith.

Er mis Chwefror 2022, rydym wedi arolygu 20 ysgol gynradd, 11 lleoliad nas cynhelir, 3 ysgol uwchradd a'r GCD. Barnwyd bod angen gwelliant sylweddol ar ddwy ysgol uwchradd a'r GCD. Ers y cyfnod hwn, mae un ysgol uwchradd wedi cau, ac felly nid oes angen gwelliant sylweddol arni mwyach. O'r ysgolion sy'n weddill, nid oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol, a nodwyd bod gan lawer ohonynt gipluniau o arfer dda neu astudiaethau achos.

Mae'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion ac ymarferwyr addysg yn gynhwysfawr, yn hyblyg ac yn ymatebol. Mae'n darparu cymorth targedig ar gyfer ysgolion. Caiff y cynnig hwn ei werthuso'n rheolaidd, ac mae swyddogion yn gwneud newidiadau i'w dulliau i ymateb i'r canfyddiadau hyn. Er enghraifft, maent wrthi'n peilota model adolygu cymheiriaid ar hyn o bryd. Mae model yr ysgolion partner yn hwyluso cymorth dan arweiniad ysgolion yn effeithiol, gyda systemau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd a monitro effaith. O ganlyniad, mae ysgolion yn elwa ar gymorth teilwredig i'w helpu i gryfhau addysgu, arweinyddiaeth a deilliannau disgyblion. Mae llywodraethwyr hefyd yn elwa ar raglen gymorth gynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys elfennau gorfodol, yn ogystal â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel Cymraeg 2050 ac effaith tlodi ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

### Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY?

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth strategol glir ar gyfer cynhwysiant, ac wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn amlwg. Mae'r awdurdod yn darparu cymorth cadarn a chynyddol effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Ceir arweinyddiaeth gref a chydlynus sy'n rhoi cynhwysiant wth wraidd gwaith yr awdurdod. Mae hyn wedi creu diwylliant o gynhwysiant, lle caiff y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn eu cymunedau.

Mae strategaeth cynhwysiant buddiol yr awdurdod lleol yn elwa'n briodol ar fframweithiau polisi cenedlaethol ac yn amlinellu continwwm clir o ddarpariaeth ar draws gwasanaethau prif ffrwd, allymestyn ac arbenigol. Mae ei bwyslais cryf ar ymyrraeth gynnar a dull yn seiliedig ar hawliau wedi helpu ffurfio arfer fwy ataliol ledled y sir. Mae disgwyliadau ar gyfer dulliau ystafell ddosbarth cynhwysol yn eglur, ac mae ysgolion yn dod yn gynyddol hyderus o ran addasu addysgu a chynllunio i ddiwallu ystod ehangach o ADY o fewn cyd-destunau prif ffrwd.

Mae arweinwyr wedi chwarae rôl ganolog mewn ailffurfio systemau, disgwyliadau a darpariaeth. Mae'r tîm cynhwysiant, y gwasanaeth seicoleg addysg a'r athrawon ymgynghorol arbenigol yn cynnig ystod werthfawr o arweiniad proffesiynol sy'n cryfhau capasiti ysgolion a lleoliadau i ddiwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Trwy

gydweithio llwyddiannus, maent wedi meithrin lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng yr awdurdod, lleoliadau, ysgolion a'r gwasanaeth cyfeirio disgyblion (GCD). O ganlyniad, caiff anghenion plant a phobl ifanc unigol eu nodi'n gynnar, ar y cyfan, ac eir i'r afael â nhw'n brydlon.

Mae'r awdurdod wedi ymateb yn effeithiol i ofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae swyddogion wedi defnyddio dull trefnus ar gyfer y trawsnewid, gan sicrhau bod ysgolion a lleoliadau'n cael arweiniad priodol drwyddi draw. Mae cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn nodwedd sefydledig o arfer. Mae disgyblion yn elwa ar gynlluniau datblygu unigol (CDUau) o ansawdd uchel gan yr awdurdod lleol sy'n llywio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ac yn sicrhau cyfnodau pontio esmwyth rhwng sectorau. Mae hyn yn sicrhau parhad mewn cymorth wrth i anghenion esblygu.

Mae swyddogion yn blaenoriaethu nodi anghenion yn effeithiol. Mae'r awdurdod wedi datblygu ymagwedd gynhwysfawr at gynorthwyo plant cyn-ysgol, gan alluogi staff i nodi anghenion yn gynnar iawn a darparu arweiniad ystyrlon i deuluoedd. Caiff darpariaeth ADY yn y blynyddoedd cynnar ei chydlynu'n dda ac mae'n cefnogi cyfnod pontio i'r ysgol feithrin neu'r ysgol yn dda.

At ei gilydd, mae systemau olrhain cynhwysiant yr awdurdod yn cyfyngu ar allu arweinwyr i fonitro cynnydd disgyblion ag ADY a gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar lefel system. Mae hyn yn cyfyngu ar gynllunio strategol ac yn lleihau pa mor fanwl gywir y gall arweinwyr nodi tueddiadau a gwerthuso deilliannau.

Mae ansawdd dysgu proffesiynol ar gyfer ADY yn dda ac yn alinio'n dda â blaenoriaethau lleol. Mae hyfforddiant ar gyfer cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynwyr ADY) yn gynhwysfawr, ac mae gwaith clwstwr yr awdurdod yn helpu hyrwyddo cysondeb a dealltwriaeth ar y cyd. Mae staff ar draws lleoliadau, ysgolion a'r GCD, yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant cyffredinol a thargedig o ansawdd uchel a gyflwynir gan y gwasanaeth seicoleg addysg a'r timau arbenigol. Caiff y buddsoddiad hwn effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder nodedig yn null yr awdurdod. Mae cydweithio cryf trwy banelau a fforymau amlasiantaethol a reolir yn dda yn sicrhau y gwneir penderfyniadau yn amserol ac y ceir ymyrraeth gydlynus. Mae perthnasoedd â phartneriaid fel iechyd a gofal cymdeithasol yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar atebion, gan helpu sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu yn y ddarpariaeth fwyaf priodol. O ganlyniad, caiff anghytundebau rhieni eu datrys yn sensitif ac yn effeithlon, ar y cyfan, ac ychydig iawn ohonynt sy'n mynd ymhellach i apeliadau ffurfiol.

### Rhaglen Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau (MASS) Sir Fynwy

Mae rhaglen Awtistiaeth mewn Ysgolion a Lleoliadau (MASS) Sir Fynwy yn darparu ymateb strategol pwrpasol sy'n alinio'n dda â'r lefelau cynyddol o niwroamrywiaeth a nodwyd ymhlith disgyblion. Mae ymrwymiad clir i weld awtistiaeth fel 'gwahaniaeth nid diffyg' yn sail i hyn. Mae buddsoddiad sylweddol yr awdurdod mewn dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi sefydlu iaith ar y cyd ac wedi cryfhau cymhwysedd staff, gan alluogi lleoliadau ac ysgolion i ymgorffori dulliau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n seiliedig ar gryfderau, yn fwy cyson. Mae ehangder a chyrhaeddiad hyfforddiant dwyieithog, y mae dros 1,300 o ymarferwyr wedi elwa arno, wedi cael ei ategu gan fodel Hyrwyddwr Awtistiaeth, ym mhob lleoliad ac ysgol, sy'n dosbarthu arweinyddiaeth yn effeithiol. Mae'r dysgu proffesiynol hwn yn cael ei roi ar waith yn dda mewn arfer ddyddiol.

Mae pwyslais y rhaglen ar gyd-gynhyrchu dilys a phartneriaeth amlasiantaethol gref yn nodwedd nodedig o'i heffeithiolrwydd. Mae cynnwys pobl ifanc ag awtistiaeth yn uniongyrchol mewn penderfyniadau strategol yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei ffurfio gan brofiad bywyd. Mae ysgolion yn sôn am fanteision clir, yn cynnwys amgylcheddau sy'n fwy cyfeillgar o ran awtistiaeth, rheoleiddio synhwyraidd gwell ac arfer sy'n fwy myfyriol. At ei gilydd, mae MASS yn helpu gyrru symudiad diwylliannol tuag at arfer fwy cynhwysol a chefnogol.

Mae canolfannau adnoddau arbenigol (CAAau) yr awdurdod yn darparu addysgu arbenigol gwerthfawr o fewn lleoliadau prif ffrwd, gan alluogi llawer o ddisgyblion ag ADY cymhleth i aros yn eu hardal a chynnal perthnasoedd cryf â'r gymuned. O ganlyniad i brosesau sicrhau ansawdd cryfach, mae cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar draws y CAAau wedi gwella.

Mae arweinwyr yn cydnabod nad yw capasiti arbenigol a therapiwtig o fewn yr awdurdod, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl), yn bodloni lefelau cynyddol y galw yn llawn. O ganlyniad, caiff ychydig o ddisgyblion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth eu gosod mewn darpariaethau'r tu allan i'r sir. Yn ychwanegol, mae argaeledd y ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig.

At ei gilydd, mae arweinwyr wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer llwybrau ôl-16 a chyfleoedd galwedigaethol i lawer o ddisgyblion ag ADY. Mae'r CAAau ar gyfer disgyblion hŷn bellach yn darparu addysg hyd at 19 oed. Trwy weithio'n agos gyda disgyblion, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill, mae staff yn y CAAau yn datblygu cwricwlwm pwrpasol gyda ffocws ar annibyniaeth, gwydnwch a medrau swyddogaethol allweddol. Mae'r CAAau yn cynnig ystod a chydbwysedd addas o lwybrau academaidd a galwedigaethol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ag ADY weithio yn y gymuned a chael profiad gwaith rheolaidd a gwerthfawr yn datblygu'n dda. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn gweithio mewn siopau

elusen, tai bwyta ac archfarchnadoedd lleol. Mae hyn yn helpu datblygu llwybrau buddiol ar gyfer disgyblion i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## Pa mor effeithiol yw gwaith yr awdurdod lleol o ran gwella presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cryf i wella presenoldeb disgyblion ar draws ysgolion ac ar gyfer y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Ar draws yr holl wasanaethau perthnasol, mae'r awdurdod lleol wedi ymgorffori gweledigaeth glir ar gyfer dull sy'n ystyriol o drawma y mae perthnasoedd cryf ac ymddiriedus yn sail iddi. Mae'r ddealltwriaeth hon ar y cyd yn sail i ethos cynhwysol yr ysgol ac yn sicrhau ffocws cyson ar les plant a phobl ifanc fel sylfaen ar gyfer gwella presenoldeb.

Mae swyddogion yn hyrwyddo disgwyliadau uchel ar gyfer presenoldeb ac yn darparu cymorth a her briodol ar gyfer ysgolion. Mae ymgynghoriadau rheolaidd ar bresenoldeb a chraffu'n systematig ar ddata yn arwain at ymyriadau a chymorth amserol. Mae hyn wedi arwain at welliannau cryf mewn presenoldeb cynradd ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar grwpiau eraill o ddisgyblion, fel disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM). Er gwaethaf hyn, mae presenoldeb disgyblion uwchradd a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn parhau i fod yn rhy isel ac angen ei wella.

Ar bob lefel, mae dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned, sy'n cynnwys cymorth amlasiantaethol, yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Mae uwch swyddogion yn defnyddio cyllid grant yn strategol i fynd i'r afael â materion presenoldeb. Mae sefydlu tîm swyddogion cyswllt â theuluoedd wedi cael effaith fuddiol, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd. Mae hyn yn helpu swyddogion i nodi a goresgyn rhwystrau rhag mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth ar gyllid grant ar gyfer swyddogion cyswllt â theuluoedd yn creu ansicrwydd am gynaliadwyedd y ddarpariaeth werthfawr hon.

Mae swyddogion yn monitro presenoldeb ysgolion yn agos. Maent yn addasu a mireinio darpariaeth i ymateb i'w canfyddiadau i wella presenoldeb ar draws yr awdurdod. Mae hyn wedi arwain at systemau cryfach o fewn y gwasanaeth lles addysg, yn cynnwys craffu'n fwy trylwyr ar bresenoldeb disgyblion uwchradd. Fodd bynnag, er bod swyddogion yn defnyddio ystod lawn o ddata, nid ydynt yn gwerthuso effaith strategaethau ar bresenoldeb ysgol gyfan nac awdurdod lleol yn ddigon gofalus. O ganlyniad, maent wedi anwybyddu meysydd pwysig sydd angen eu gwella, fel presenoldeb disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae cyflwyno tîm arweinyddiaeth newydd yn y gwasanaeth cyfeirio disgyblion (GCD) yn ddiweddar wedi cyflwyno sefydlogrwydd ac wedi helpu cryfhau strategaethau i wella presenoldeb ar gyfer y grwpiau mwyaf bregus o ddysgwyr. Mae defnyddio llwybrau dysgu

pwrpasol a chynlluniau ailintegreiddio priodol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb y plant a'r bobl ifanc hyn.

Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd gref o ymagwedd yr awdurdod at wella presenoldeb. Mae ystod eang o hyfforddiant o ansawdd uchel yn gwella dealltwriaeth a chapasiti staff o ran yr agwedd hon ac yn atgyfnerthu gweledigaeth gynhwysol yr awdurdod. Mae'r dysgu proffesiynol hwn wedi canolbwyntio ar reoli ymddygiad disgyblion, hefyd. Er bod cyfraddau gwaharddiadau wedi gostwng yn ddiweddar, maent yn parhau i fod yn rhy uchel ac yn parhau i gael effaith negyddol ar bresenoldeb yn gyffredinol.

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliadau a'u hysgolion?

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu lleoliadau a'u hysgolion, fel y nodwyd yn eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Maent yn cyfleu hyn i'r holl randdeiliaid a phartneriaid. Maent yn cydweithio ag ystod o bartneriaid i ddatblygu blaenoriaethau'r CSCA a thrwy hyrwyddo manteision dwyieithrwydd. Yn unol â thargedau'r CSCA, mae darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg wedi datblygu'n briodol dros gyfnod.

Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn goruchwylio prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer monitro a gwerthuso rhoi'r CSCA ar waith. Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn darparu fforwm i hyrwyddo diwylliant cryf o gydweithio a chreadigrwydd ymhlith rhanddeiliaid ar gyfer cyflawni deilliannau'r CSCA. Maent yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau bob tymor ac yn herio cynnydd yn gadarn. Mae hyn yn cynnwys wrth drafod cyflymdra newid yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhannu gwybodaeth fuddiol i gynorthwyo rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cyfrwng iaith addysg eu plentyn o oedran ifanc. Mae partneriaethau llwyddiannus i hyrwyddo, cefnogi a datblygu'r ethos a'r diwylliant Cymreig yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg. Er gwaethaf ymdrechion yr awdurdod lleol a'i bartneriaid i gynorthwyo disgyblion i barhau â'u haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yng ngogledd yr awdurdod yn parhau i bontio i addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae datblygu dosbarthiadau trochi hwyr yn cefnogi strategaeth yr awdurdod lleol yn dda i gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws yr awdurdod. Ar hyn o bryd, mae'r is-grŵp sy'n hyrwyddo'r CSCA yn mynd ati i hyrwyddo'r ddarpariaeth hon ymhellach i roi gwybod i rieni am y cyfle i symud eu plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach yn eu bywyd ysgol statudol.

Ceir ystod gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer darparwyr cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, fel ei gilydd, i gefnogi datblygu'r Gymraeg ar draws yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae mwyafrif o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg a arolygwyd er 2022, wedi cael argymhelliad i wella'r Gymraeg. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r awdurdod yn canolbwyntio ar gynorthwyo arweinwyr ysgolion i ddatblygu gweledigaeth a diwylliant Cymreig.

Mae arbenigwyr pynciau gwasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod lleol (GGYALl) yn monitro medrau Cymraeg y gweithlu yn dda. Maent yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion i ddadansoddi data gweithlu i roi gwybod iddynt am gynnydd mewn medrau Cymraeg ymhlith eu staff. Mae hyn wedi arwain at gymorth targedig i staff ysgolion wella'u medrau Cymraeg ymhellach. Yn ychwanegol, mae partneriaethau gwerthfawr wedi darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu brwdfrydedd am ddysgu Cymraeg. Mae nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith mewn Safon Uwch wedi cynyddu yn ddiweddar.

## Arwain a gwella

Mae aelodau etholedig ac arweinwyr o fewn Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae addysg yn rhan amlwg o'r cynllun cymunedol a chorfforaethol, ac yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi, a'r Prif Swyddog Gweithredol, wedi sefydlu gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer addysg yn canolbwyntio ar sicrhau rhagoriaeth, tegwch a'r deilliannau gorau i bawb. Mae gwerthoedd gwaith tîm, hyblygrwydd, tegwch, didwylledd a charedigrwydd yn sail i'r weledigaeth hon, ac mae arweinwyr yn dangos y rhain yn gryf ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae hyn wedi sefydlu perthnasoedd cryf rhwng arweinwyr, swyddogion a rhanddeiliaid. Mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau mewn agweddau pwysig ar waith yr awdurdod lleol, yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY a chymorth ar gyfer gwella ysgolion.

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol yn darparu arweinyddiaeth sicr, gyson a phwyllog. Mae'r ffordd y mae wedi datblygu diwylliant cryf o ymddiriedaeth a thryloywder, lle mae swyddogion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, gan hefyd ddeall eu cyfrifoldeb i gyflawni gwelliannau, yn gryfder nodedig. Mae ffocws cryf ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a'r Cyfarwyddwr Strategol wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau bod gwaith yr awdurdod lleol yn cyd-fynd yn dda â'r nod hwn.

Mae aelodau etholedig yn meddu ar ddealltwriaeth eang o waith y gyfarwyddiaeth ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â swyddogion. Mae adroddiadau, fel adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Strategol, yn helpu rhoi gwybod iddynt am faterion pwysig a

heriau sy'n wynebu'r awdurdod. Er enghraifft, maent yn deall bod angen gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. Mae hyn wedi eu cynorthwyo â gwneud penderfyniadau a chynnal addysg yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Craffu Pobl a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg yn ystyried gwaith y gyfarwyddiaeth yn addas, a cheir cyfleoedd rheolaidd iddynt dderbyn adroddiadau a diweddariadau pwysig am waith y gyfarwyddiaeth. Er bod aelodau craffu yn fodlon gofyn cwestiynau perthnasol i aelodau a swyddogion, nid yw adroddiadau i aelodau craffu bob amser yn ddigon manwl. O ganlyniad, nid yw aelodau craffu bob amser yn gallu dwyn y Cabinet i gyfrif yn ddigon effeithiol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei brosesau ar gyfer gwerthuso a gwella. Caiff y rhain eu deall yn dda gan swyddogion, ac maent wedi arwain at welliannau mewn meysydd gwasanaeth, gan gynnwys mynd i'r afael â llawer o'r argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol.

Mae swyddogion ar bob lefel yn defnyddio ystod o weithgareddau a data addas i'w helpu i ystyried cynnydd yn erbyn cynlluniau'r gwasanaeth addysg a nodi cryfderau bras a meysydd i'w gwella ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Cefnogir hyn gan adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Strategol sy'n defnyddio sail dystiolaeth eang ac yn rhoi trosolwg cadarn o berfformiad presennol. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae gormod o amrywiad o ran pa mor dda mae arweinwyr a swyddogion yn gwerthuso effaith eu gwaith. Yn aml, maent yn canolbwyntio gormod ar ddisgrifio gweithgarwch yn hytrach na'r effaith ar wella gwasanaethau neu ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. O ganlyniad, nid yw blaenoriaethau gwella a meini prawf llwyddiant bob amser yn ddigon manwl i yrru gwelliannau cyflymach.

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o fyfyrio ymhlith staff a rhoddir blaenoriaeth dda i ddysgu proffesiynol. Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu eu profiadau a'u medrau proffesiynol, er enghraifft trwy ehangu cyfrifoldebau ac ennill cymwysterau proffesiynol. Mae uwch arweinwyr yn meddwl yn ofalus am gynllunio olyniaeth ac yn defnyddio dysgu proffesiynol yn dda i gefnogi hyn. Mae swyddogion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt trwy reolwyr llinell a threfniadau adolygu perfformiad. Mae sesiynau un i un rheolaidd yn darparu cyfleoedd buddiol i swyddogion fyfyrio ar eu harfer. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn bob amser yn dwyn staff i gyfrif yn ddigonol am effaith eu gwaith.

Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf. Mae gan bob cyfarwyddiaeth unigolyn diogelu dynodedig a dirprwy, ac mae pob tîm canolog yn cwblhau archwiliad diogelu blynyddol. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelu ar draws pob tîm.

Ar draws yr awdurdod lleol, gwrandewir yn dda ar blant a phobl ifanc, ac ystyrir eu safbwyntiau. Er enghraifft, mae llais plant a phobl ifanc yn ganolog i'r broses pryderon ymarferwyr, wedi'i hategu gan strategaeth cyfranogiad yr awdurdod lleol.

Mae ysgolion yn cael lefel uchel o gymorth a chyngor buddiol ac amserol gyda materion diogelu. Maent yn gwerthfawrogi pa mor dda mae swyddogion yn defnyddio'u medrau a'u gwybodaeth i'w cefnogi a'u herio'n rhagweithiol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn nodi'n effeithiol faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft am y cynnydd mewn troseddau cyllyll ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu cymorth targedig ar gyfer plant, pobl ifanc ac ysgolion. Mae gweithgor hawliau, parch a chydraddoldeb yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar nodi tueddiadau mewn bwlio ac yn cynorthwyo ysgolion i gofnodi a delio â phryderon yn gywir.

Mae ystod eang o hyfforddiant diogelu o ansawdd uchel ar gael i staff a llywodraethwyr ysgolion. Mae pob darparwr yn cwblhau archwiliadau diogelu rheolaidd ac yn ysgrifennu cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar unrhyw ddiffygion. Mae'r swyddog arweiniol yn rhoi cymorth ac adborth gwerthfawr i ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn gysylltiedig â'r cynlluniau hyn.

Mae adroddiad diogelu blynyddol manwl a gwerthusol sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Cyngor llawn. Mae aelodau etholedig yn holi cwestiynau priodol i ofyn am eglurhad, yn gofyn am fwy o wybodaeth a herio'r adroddiad a gyflwynwyd iddynt.

Ceir gwaith amlasiantaethol effeithiol trwy'r grwpiau diogelu corfforaethol amrywiol, rhannu gwybodaeth bwysig a mynychu cyfarfodydd allweddol. Gall ysgolion a lleoliadau addysg eraill gael gwybodaeth bwysig i olrhain camau a gymerwyd gan asiantaethau eraill pan maent wedi rhoi gwybod am bryder ynghylch plant a phobl ifanc. Mae hyn yn gryfder yng ngwaith yr awdurdod lleol.

Mae penderfyniadau diweddar am y gyllideb wedi adlewyrchu bod y Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i addysg. Yn nodedig, y cynnydd yng nghyllideb 2025-26 oedd y mwyaf yng Nghymru, gan godi gwariant fesul disgybl yn Sir Fynwy uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tro cyntaf er 2016-17. Yn hanesyddol, fodd bynnag, mae gwariant wedi'i gyllidebu fesul disgybl gan yr awdurdod wedi bod islaw cyfartaledd Cymru yn gyson, gan gyfrannu at orwariant gan ysgolion a'r diffygion presennol ym malansau ysgolion.

O fis Mawrth 2025, roedd diffyg yng nghyllideb 43% o ysgolion Sir Fynwy, gyda diffyg cyfunol o £4.1 miliwn. Hwn oedd yr uchaf yng Nghymru, fesul disgybl. Er gwaethaf ymdrechion i gefnogi a herio ysgolion i leihau'r rhain, bu cynnydd hyd yma yn gyfyngedig ac mae'r diffyg yn parhau i gynyddu.

Mae'r awdurdod wedi strwythuro prosesau i fonitro cyllidebau ysgolion ac mae ganddo ddealltwriaeth gref o sefyllfaoedd ariannol ysgolion. Mae hefyd yn deall achosion sylfaenol pwysau ariannol ar draws addysg. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau i aelodau etholedig yn disgrifio'r rhesymau am orwariant ysgolion unigol yn ddigonol nac effaith ymyriadau'r Cyngor. Mae hyn yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i asesu a herio effeithiolrwydd y camau a gymerwyd. Ymhellach, nid yw adroddiadau'n egluro'n glir lwybr y gorwario cynyddol a risgiau hyn i sefyllfa ariannol yr awdurdod yn gyffredinol.

Mae swyddogion cyllid yn gweithio'n agos gydag ysgolion, gan gynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant buddiol. Mae'r awdurdod hefyd yn ymateb i faterion yn rhagweithiol, er enghraifft trwy ehangu canolfannau adnoddau ysgolion ac adolygu dulliau dyrannu cyllid i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol yn sgil galw cynyddol. Mae'r gwasanaeth addysg yn cydnabod bod angen gwneud defnydd gwell o ddata meincnodi wrth iddo gefnogi a herio ysgolion.

Nid yw'r cynllun ar gyfer ariannu ysgolion wedi cael ei ddiweddaru er 2018, felly nid yw'n adlewyrchu ymagwedd bresennol yr awdurdod mwyach a'r newid yn yr amgylchedd gweithredu. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi ymestyn cyfnodau adfer o ddiffyg i gyhyd â 10 mlynedd ar gyfer ychydig iawn o ysgolion sydd â diffygion sylweddol.

Mae'r awdurdod yn cynnig ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) ac mae lefel uchel yn manteisio ar hyn, ar y cyfan. Fodd bynnag, er bod adborth anffurfiol yn cael ei gasglu, nid oes proses systematig ar gyfer adolygu CLGau gydag ysgolion.

Mae gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion aelodaeth eang sy'n cynnwys penaethiaid, swyddogion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, llywodraethwyr ac undebau llafur. Mae'r Fforwm yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol a chydweithredol at ystod o faterion allweddol, ac roedd ganddo rôl arwyddocaol yn ddiweddar yn adolygu elfennau o'r fformiwla gyllido.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, yn cynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2026